

# **Ysgol Gymunedol Bancffosfelen Community School**



## **Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr**

**2020-2021**

**Governors' Annual Report**

Dymunaf i, y staff a'r llywodraethwyr ddiolch o galon i chi gyd am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth parod dros y flwyddyn diwethaf.

Er gwaetha popeth, rydym oll wedi cydweithio heddiw i sicrhau fod disgyblion ein hysgol yn mwynhau gymaint o brofiadau a chysondeb a phosibl.

Diolch o galon,

Marie Langabeer

# YSGOL GYNRADD BANCFFOSFELEN

## ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR 2020-2021

**Cadeirydd y Corff Llywodraethol:** Mr L Howells  
Ysgol Gynradd Bancffosfelen  
Bancffosfelen  
Llanelli  
SA15 5DR

**Clerc i'r Corff Llywodraethol:** Mrs Miriam Evans  
Ysgol Gynradd Bancffosfelen  
Bancffosfelen  
Llanelli  
SA15 5DR

Cofrestr cyflawn o'r Llywodraethwyr:

<b>ENW:</b>	<b>DYDDIAD TERFYNU:</b>	<b>STATWS:</b>
Mr Luke howells	10.3. 2024	A.A LI
Mr Julian Jones	28.11.2022	A.A.LI
Mr Andrew Barlow	26.03.2024	A.A.LI
Mr Gareth Harries	25.01.2022	Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol
Miss J M Langabeer	-	Pennaeth
Mrs Amanda Rees	18.09.2022	Athrawes
Mrs Eleri Evans	18.09.2021	Rhiant
Mrs Nia A Phillips	15.10.2021	Rhiant
Mr A Davies	11.06.2021	Cynrychiolydd Cymunedol
Mrs D H Davies	20.12.2023	Cynrychiolydd Cymunedol

**Cadeirydd:** 2020/2021: Mr L Howells

**Is-Gadeirydd:** 2020/2021: Mrs D Davies

### DIOGELU

Miss Marie Langabeer	Pennaeth
Mrs A Rees	Athrawes
Mrs D Davies	Llywodraethwraig

## **Ysgol Gymunedol Bancffosfelen**

### **Adroddiad Blynyddol 2020-2021 Corff Llywodraethol**

#### **Staffio Haf 2021**

Rhif y disgyblion ar y gofrestr ar ddechrau'r tymor = 51

Nifer o ddosbarthiadau = 2

**Cyfnod Sylfaen:** Mrs Amanda Rees a Mrs Elin Davies

**Cyfnod Allweddol 2:** Mrs Susan Simpson

**Cynorthwyr:** Mrs Angharad Bryant, Mrs Anne Marie Passmore (0.6) a Mrs Sarah Wilkinson (0.2)

**Athrawes CPA:** Mrs Lynne Jones (0.2)

#### **Athrawon Peripatetig sy'n ymweld â'r ysgol:**

Mr Gethin Saunders– Pres

Mrs Gail Davies - Recorders i Flynyddoedd 3, 4, 5 a 6

Ymunodd Mr Roger Selwood a staff yr ysgol fel gofalydd dros dro tra bod Mrs Christine Williams yn sal.

#### **Ysgol Gymunedol Bancffosfelen**

Ysgol cyfrwng Cymraeg yw Ysgol Gymunedol Bancffosfelen. Addysgir y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynir Saesneg fel pwnc yng Nghyfnod Allweddol 2. Caiff ddisgyblion sy'n ymuno â'r ysgol yng Nghyfnod Allweddol 2 eu cefnogi drwy ymweld â'r Ganolfan Iaith.

Mae gohebiaeth i rieni yn ddwyieithog. Mae'r ysgol yn dablygu y Siarter Iaith ac wedi bod yn llwyddiannus i gael y wobwr efydd.

#### **Hunan Arfarnu a Chynllun Datblygu'r Ysgol**

Mae rhaglen arfarnu'r ysgol yn sicrhau bod holl bynciau ac agweddau'r cwricwlwm yn cael eu gwerthuso. Mae'r agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach yn cael eu nodi ar Gynllun Datblygu'r Ysgol. Mynycha'r staff Hyfforddiant mewn Swydd yn unol â gofynion Cynllun Datblygu'r Ysgol ac anghenion Datblygiad Proffesiynol.

Targedau'r ysgol a chynnydd

<b>Disgrifiad/gweithgaredd/ gwelliant</b>	<b>Cynnydd</b> (dylai hwn gyfeirio at gynnydd o'i gymharu â 'chynlluniau tymor presennol' o adroddiad blaenorol y Pennaeth, ac unrhyw gynnydd ychwanegol mewn meysydd na gynlluniwyd/adroddwyd arnynt yn flaenorol):
<b>I sicrhau profiadau rhifedd cyffrous, diddorol a hygyrch i ddisgyblion i ddatblygu sgiliau rhesymu i ddatrys problemau, mewn sefyllfaoedd bob dydd, yn annibynnol ac ar y cyd.</b>	<p>Adnabod unrhyw anghenion hyfforddi sydd eu hangen. Cynllunio'n fanwl i sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion defnyddio sgiliau rhifedd a TGCh yn draws gwricwlaidd Cyfarfodydd staff i sicrhau fod staff gan gynnwys staff newydd yn cynllunio gweithgareddu rhifedd ar draws y cwricwlwm</p> <p>Cyflwyno tasgiau rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion yn rheolaidd yn ol y cynllunio</p> <p>Gweithgareddau rhifedd yn cael eu cynllunio i ddisgyblion ar lein dros y cyfnod clo. Tasgiau rhifedd yn cynnwys y RSPB birdwatch, mesur tymheredd, casglu data ar hoff gerddoriaeth disgyblion ar ddydd Miwsig Cymru, Mesur a phwyso cynhwysion i goginio ayb</p> <p>Sicrhau fod disgyblion yn cael cyfleoedd i wneud</p> <p>Targedu datblygu sgiliau- dosbarthu data, newid ffont, maint a lliw, creu graffiau, animeiddio, danfon ac ateb e byst, creu rhestr chwarae, pwerbwytiau, rheoli ayb</p> <p>Cwblhau Menter Busnes gan ddisgyblion yn nodi costiau, dyluniad o arteffact i greu, gwneud, gwerthu yn Ffair Nadolig yr ysgol a gweithio allan yr elw. Disgyblion i benderfynu beth i brynu a'r elw.</p> <p>Staff i fynychu hyfforddiant Podiau Rhifedd.</p> <p>Gosod tasgiau rhifedd ar draws y cwricwlwm gwahaniaethol ar lein i ddisgyblion.</p>

<p><b>I ddatblygu sgiliau lles, gwydnwch a chydymhelliant yr holl ddisgyblion drwy sicrhau profiadau cyfoethog ac amrywiol gan gynnwys yr ardal allanol</b></p>	<p>Staff wedi mynychu hyfforddiant LLYthrennedd Emosiynol gan Carly Jones ar Ionawr 4ydd. Asesu lles emosiynol disgyblion</p> <p>Cynorthwywr i fynychu hyfforddiant Positive Play. Awyrgylch agored fel bod staff yn trafod yn agored eu teimladau, barn ayb</p> <p>Staff yn cysylltu a disgyblion yn rheoliadd dros y cyfnod clo</p> <p>Cymryd rhan yng nghweithgareddau Wythnos Iechyd Meddwl Disgyblion – Mynegwch eich hun gan ddilyn gweithgareddau Place2be.</p> <p>Bu disgyblion yn creu lantern i sialens Sir Gar i ledaenu'r neges o – gobaith, golau ac hapusrwydd i bawb yn ein cymuned.</p> <p>Rhannwyd gweithgareddau Lles yn wythnosol gyda disgyblion Bu disgyblion yn cymryd rhan yn 1 miliwn o funudau actif gudadg Actif sir gar.</p> <p>Bu disgyblion yn gwneud gweithgareddau i ddathlu dydd Empathi.</p> <p>Rhannwyd gweithgareddau gyda theuluoedd ar Twitter i gwblhau dros hanner tymor ar empathi.</p> <p>Cafodd pob swigen ymweliad gan Sbectrwm i ar berthnasoedd positif</p> <p>Cynorthwywraig i fynychu hyfforddiant ELSA.</p> <p>Staff i gyflwyno gweithgareddau lles – Bod yn garedig, ffrind da ayb</p> <p>Pawb yn cael ffrwyth gyda'i gilydd amser egwyl. Stori ar y cyd yn y Cyfnod Sylfaen bob prynhawn gydag ysgytlaeth neu sioceld poeth.</p> <p>Hyfforddiant PROACT SKIP i staff</p> <p>Gweithgareddau gan PC Ali- Smart ar y we, syber bwlio ayb</p> <p>Gweithgareddau gan Sbectrwm ar iechyd a lles</p> <p>Dau lysgenhadwr efydd yn roi gwersi ymarfer corff dyddiol.</p> <p>Mr Lyn Broderick Actif Sir Gar wedi monitor eu gwersi.</p> <p>Cyflwyno beiciau cyd bwysio i'r cyfnod Sylfaen.</p> <p>Disgyblion yn cael cyfloedd o fewn y themau i ddefnyddio'r ardal allanol- i blannu, datblygu adnoddau a lle eistedd ar flaen yr Ysgol, dathlu dydd cefnforoedd y byd ayb</p> <p>Mae staff wedi bod yn edrych ar gynllunio Maes addysgu Iechyd a Lles yn y Cwricwlwm i Gymru 2022.</p> <p>Mae staff wedi dechrau cynllunio er mwyn sicrhau dilyniant</p> <p>Rhannwyd holiadur gan rieni i gasglu eu barn.</p>
---	--

<p><b>I ddatblygu sgiliau cyfathrebu pob disgybl ar lafar, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, fel eu yn gallu mynegi eu barn gydag hyder cynyddol gan ddatblygu eu gwerthoedd a'u hunaniaeth.</b></p>	<p>Datblygu cynllunio ar draws y cwricwlwm i gynnwys strategaethau addysgu y cyfnod sylfaen, fframwaith y cymhwysedd digidol, llais y disgybl, gweithgareddau gwahaniaethol a phedwar diben Cwricwlwm i Gymru er mwyn datblygu disgyblion sy'n fentrus, creadigol, egwyddorol, gwybodus, iach ac hyderus. Cyflwyno tasgiau/ gweithgareddau wedi eu gwahaniaethu i herio grwpiau o ddisgyblion Sicrhau fod disgyblion yn deall y broses o asesu ar gyfer dysgu er mwyn gwella eu gwaith.</p> <p>Cynllunio yn nodi'r cyfleoedd am dasgiau llafar ar draws y cwricwlwm.</p> <p>Cynllunio yn nodi'r cyfleoedd am dasgiau ysgrifennu mewn genres gwahanol.</p> <p>Ymghynghorwyr ac athrawon y sir wedi ymweld a chynnig cymorth- CS – Rose Jones, Donna Williams, AGGAD, arweinydd dysgu Erw ayb i fodelu gwersi ayb.</p> <p>Cyflwyno patrymau llafar cywir i ddisgyblion- mae pel gyda fi, nhw i gyd, rydw i, dydw i ddim.</p> <p>Tasgiau llafar – mynegi barn ayb a recordio eu gwaith. Cyflwyniadau gan ddisgyblion ar bynciau gwahanol.</p> <p>Gwobrwyo disgyblion am siarad Cymraeg – Cymro/ Cymraes Cwl yr wythnos o bob dosbarth yn cael eu gwobrwyo a chymeradwyo yn wythnosol.</p> <p>Gweithgareddau ar Ddydd Miwsig Cymru</p> <p>Cynllunio a chyflwyno gweithgareddau Geirio Gwych – ysgrifennu estynedig ar y gwahanol genres</p> <p>Cynnal gweithgareddau Cymreig ar Ddydd Gwyl Dewi – yn cynnwys celf a thasgiau ysgrifenedig.</p> <p>Sicrhau fod sesiynau ffrydio byw yn datblygu patrymau iaith cywir wrth gynnal trafodaethau.</p> <p>Tasgiau gwahaniaethol ar lein i ddisgyblion i ddatblygu eu sgiliau iaith.</p> <p>Hyffroddiant Cynllun Clonc,</p>
--	---

<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cynyddu lefel yr her yn yr addysgu</b></li> </ul>	<p>Ymweld ag ysgolion sy'n arddangos arfer da parthed cynllunio, darpariaeth, gwahaniaethu, strategaethau addysgu'r cyfnod sylfaen – Bro Banw, Bro Brynach, Pontarddulais.</p> <p>Cynllunio gweithgareddau i herio disgyblion gan gynnwys disgyblion ADY a MATH.</p> <p>Datblygu cynllunio ar draws y cwricwlwm i gynnwys strategaethau addysgu y cyfnod sylfaen, fframwaith y cymhwysedd digidol, llais y disgybl, gweithgareddau gwahaniaethol a phedwar diben y Cwricwlwm er mwyn datblygu disgyblion sy'n fentrus, creadigol, egwyddorol, gwybodus, iach ac hyderus.</p> <p>Sicrhau fod disgyblion yn deall y broses o asesu ar gyfer dysgu er mwyn gwella eu gwaith.</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Gweithredu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llawn</b></li> </ul>	<p>Athrawes yn rhan o hyfforddiant "Moving Forward" a ddarperir gan y sir i wella'r ddarpariaeth yn y dosbarth ac yn yr ardal allanol, i wella systemau asesu ac i hybu annibyniaeth yn y dosbarth.</p> <p>Athrawes wedi mynychu hyfforddiant Cyfnod Sylfaen sy'n cefnogi creu amgylcheddau addysgu pwrpasol.</p> <p>Pob aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddatblygu annibyniaeth disgyblion gan Cath Delve.</p> <p>Sicrhau cyfleoedd/ heriau sy'n targedu sgiliau – annibyniaeth, meddwl, dyfalbarnau her ayb</p> <p>Creu corneli heriau penodol – Gwyddoniaeth</p> <p>Modelu'r heriau gwahanol i ddisgyblion a staff ategol i sicrhau bod disgyblion yn elwa o'r profiadau</p> <p>Staff wedi mynychu hyfforddiant Geirio gwyich, Llythrennau a synau Pie Corbett ayb</p>



<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Gwella medrau TGCh ar draws y cwricwlwm yn y ddau gyfnod allweddol</b></li> </ul>	<p>Athro CA 2 i fynychu hyfforddiant – TGCh – Codio, Trafod data – Excel</p> <p>Gwneud awdit o offer TGCh a nodi unrhyw offer sydd eu hangen i'w archebu</p> <p>Adnabod unrhyw anghenion hyfforddi sydd eu hangen. Cynllunio'n fanwl i sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion defnyddio sgiliau rhifedd a TGCh yn draws gwricwlaidd</p> <p>Sicrhau fod disgyblion yn cael cyfleoedd i wneud gweithgareddau J2 Blast yn rheoliadd</p> <p>Targeddu datblygu sgiliau- dosbarthu data, newid ffont, maint a lliw, creu graffiau, animeiddio, danfon ac ateb e byst, creu rhestr chwarae, pwerbwytiau, rheoli ayb</p> <p>Staff i fynychu hyfforddiant Digi Meets.</p> <p>Cynnal Noson E Ddiogelwch i rieni gan yr Arweinwyr Digidol a PC Ali.</p> <p>Marie Langabeer ac Amanda Rees I fynychu hyfforddiant gan Erw ar Ddiogelwch ar y We.</p> <p>Gweithgareddau ar Ddiwrnod E Ddiogelwch.</p> <p>Defnyddio sgrin werdd i recordio a chreu animeiddiadau e.e. creu swyn</p>
<p><b>Sicrhau arweinydd sefydlog i'r ysgol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytunodd llywodraethwyr Ysgol Llannon ac Ysgol Bancffosfelen i ymestyn y bartneriaeth o rannu pennaeth am flwyddyn arall</li> <li>• Llunio amserlen hunarfarnu o Fedi 2019-Gorffennaf 2020</li> <li>• Penodwyd athrawes brofiadol i addysgu dosbarth cyfnod allweddol 2 - mis Medi 2019</li> <li>• Lluniwyd amserlen hyfforddiant ar gyfer y staff</li> <li>• Monitro gwersi</li> <li>• Ymweliadau Craidd yn arsylwi ar wersi</li> <li>• Apwyntio athrawes ychwanegol yn y cyfnod Sylfaen i gynorthwyo disgyblion i setlo nol yn yr ysgol wedi'r cyfnod clo.</li> </ul>

## **Adolygu Polisiau'r Ysgol**

Lluniwyd nifer o bolisiau newydd sy'n cael eu rhannu gan y Llywodraethwyr yn eu cyfarfodydd.

Hyd yn hyn rydym wedi adolygu a derbyn polisiau:

- Diogelu
- Diogelwch ar lein
- Ymddygiad
- Chwythu'r chwiban
- Cwynion
- Gwrth fwlio
- Disgyblu staff
- Polisi Ymyriad Diogel

## **Safonau Addysgu a Dysgu**

Caiff safonau addysgu a dysgu eu monitro'n gyson gan y Pennaeth, Llywodraethwyr, Ymgynghorwyr y Sir ac arolygwyr Estyn.

Rydym wedi ymrwymo i godi safonau Sgiliau Sylfaenol mewn Llythrennedd a Rhifedd a TGCh. Mae grwpiau targed yn cael gweithgareddau "Chatt " a "Llythrennau a Synau."

## **Anghenion Dysgu Arbennig**

Nôd yr ysgol yw adnabod anghenion dysgu ychwanegol ein disgyblion cyn gynted â phosibl ac i gymryd y camau priodol i ateb eu gofynion.

Cadwn mewn cysylltiad agos â'r rhieni a defnyddiwn yr adnoddau priodol i roi cymorth i'r disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Rydym yn cael cymorth gan Seicolegydd Addysgol y Sir yr Adran Ymddygiad a Therapydd Iaith a Lleferydd.

## **Disgyblion ag Anabledd**

Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn unol â pholisi Cyfle Cyfartal yr ysgol.

Caiff plant ag anabledd corfforol eu derbyn a'u haddysgu yn ôl eu hanghenion fel y nodwyd gan yr asiantaethau eraill sy'n gofalu amdanynt er mwyn sicrhau parhad a chysondeb yn eu haddysgu.

## **Ysgol Iach**

Mae Ysgol Bancffosfelen yn dilyn Polisi Ysgolion Iach y Sir. Rydym fel ysgol yn pwysleisio gofalu am iechyd trwy annog byrbrydiau ffrwythau amser chwarae, dŵr yn unig yn y poteli a gwneud yn siwr bod cynnwys bocsys bwyd yn iach.

## **Cysylltiadau â'r Gymuned**

Mae Llywodraethwyr yr ysgol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Dirprwywyd cyfrifoldebau am agweddau a phynciau i bob un o'r llywodraethwyr.

Derbyniwn fyfyrwyr ar brofiad gwaith o Ysgolion Uwchradd Maes y Gwendraeth ac o Golegau Lleol gan gynnwys Rhydaman, Llanelli a Choleg y Drindod.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r Mudiad Meithrin sy'n cwrdd yn foreol yn yr ysgol a'r Cylch Ti a Fi oedd yn cwrdd unwaith yr wythnos yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cefnogi Neuadd y Pentref ac yn cynnal Gwasanaeth Nadolig a'r Ffair Nadolig yno.

Mae perthynas agos iawn gyda'r ysgol â'r gymuned leol.

Rydym hefyd wedi creu cysylltiadau agos gyda Heddlu Crosshands.

Mae P.C. Ali yn ymweld â'r Ysgol yn dymhorol i gynnal sesiynau – e.e. bwlian, ymddygiad, llefydd diogel i chwarae a.y.b. Hefyd mae gweithdy Cymo

Dymunaf i, y staff a'r llywodraethwyr ddiolch o galon i chi gyd am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth parod dros y flwyddyn diwethaf.

Er gwaetha popeth rydym oll wedi cydweithio heddiw i sicrhau fod disgyblion ein hysgol yn mwynhau gymaint o brofiadau a chysondeb a phosibl.

Diolch o galon,

Marie Langabeer

Croesawn aelodau'r gymuned i ymuno gyda ni mewn nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn (cyn Covid)–

- Gwasanaeth Nadolig yn y Neuadd
- Ffair Nadolig yn y Neuadd
- Noson Ffilm
- Disgos

Casglodd yr ysgol ar gyfer elusennau gan gynnwys Plant mewn Angen, Cronfa Roald Dahl, Maint Cymru ayb.

Rydym hefyd yn cefnogi Eisteddfod a Sioe y Banc

Diolch i bawb am bob cefnogaeth

### **Cymdeithas Rhieni ac Athrawon**

Ymfalchiwn yn y berthynas agos sydd gan yr ysgol â'n rhieni. Mae'n polisi drws agored yn sicrhau fod rhieni yn cael eu croesawi i drafod unrhyw beth.

Mae'r Cymdeithas Rhieni ac Athrawon wedi llwyddo i drefnu Raffl Nadolig er gwaetha rwystrau Covid 19. Mae'r elw hyn wedi talu am :

Celfi newydd i ddsbarth cyfnod allweddol 2

Cloch i ddrws y ffrynt

Diolchwn i'r swyddogion am eu gwaith a'u hymroddiad dros y flwyddyn.

## Presenoldebau

Targed- 95%

Presenoldebau am y flwyddyn o 2/9/2020 i 26/6/21 : 94.95 %

Dosbarth	Presenoldeb %	Absenoldeb gyda chaniatad %	Absenoldeb heb ganiatad %
Cyfnod Sylfaen	94.55	5.45	0
Cyfnod Allweddol 2	95.48	4.52	0
Ysgol Gyfan	94.95	5.05	0

## Penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod blynyddol diwethaf

Ni wnaed unrhyw benderfyniadau yn y cyfarfod diwethaf.

## Llawlyfr yr Ysgol

Cafodd llawlyfr yr ysgol ei ddiweddarau ac mae ar gael o swyddfa'r Ysgol ac ar wefan yr ysgol.

## Adeilad

Dros y cyfnod clo peintwyd yr ysgol

## Toiledau

Mae yma floc o doiledau merched a bechgyn yn y brif goridor.

Mae yna ddau doiled i staff. Dros y cyfnod clo mae disgyblion y dosbarth cyfnod sylfaen wedi defnyddio toiledau'r merched, bechgyn cyfnod allweddol 2 toiledau'r bechgyn, tra bo merched cyfnod allweddol 2 wedi defnyddio un o doiledau'r staff.

Maent yn cael eu glanhau yn ddyddiol ar ddiwedd y dydd.

## Gweithgareddau'r Ysgol

### Y Campau

- Cafodd lysgenhadwyr eu hethol a'u hyfforddi gan Actif Sir Gar
- Cawsant gyfarfod gyda Lyn Broderick actif Sir Gar ar Teams i drefnu gweithgareddau a rhannu syniadau
- Maent yn cynnal sesiynau sgiliau i ddisgyblion eraill yr ysgol
- Bu pob disgybl yn cymryd rhan ym mabolgampau'r ysgol
- Mae disgyblion a staff yn cymryd rhan ym mil o funuadau y Dydd gan Actif Sir Gar
- Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn cael sesiynau ioga a meddwlgarwch yn wythnosol
- Bu disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfweld a holi Kieran Hardy ar Teams

## Cysylltiadau Cymunedol

- Cafodd disgyblion eu ffilmio yn cyflwyno eitemau i wasanaeth Diolchgarwch. Rhannwyd yr eitemau ar gyfri Twitter yr ysgol
- Cynhalwyd a ffilmwyd cyflwyniadau Nadolig gan y dau ddsbarth a rhannwyd ar Twitter ac ar gyfri Hwb disgyblion i rieni medru eu gweld.
- Cynhaliwyd Nosweithiau Rhieni rhithiol ar Team
- Cafodd cyfnod allweddol 2 gyfle i weld cyngerdd gan Symffoni Cymru
- Dathlwyd Diwrnod y Llyfr drwy osod gweithgareddau ar lyfrau.

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon

- Cynhaliwyd Raffl Nadolig

## Cyngor Ysgol

- Trefnodd y Cyngor ysgol ddiwrnod gwisgo lan i godi arain i Blant mewn Angen.
- Trefnodd y cyngor ysgol i ddisgyblion wisgo coch, gwyn, gwyrdd neu felyn I gefnogi Cymru yn yr Euros a chodi tal o £1
- Cafodd yr arian a godwyd ei roi i Maint Cymru

## Cyngor Eco

- Dathlwyd Wythnos Masnach Deg drwy gynnal gweithgareddau gwahanol
- Cwbwlhawyd adolygiad Eco'r ysgol gan y disgyblion
- Bu'r Cyngor Eco yn cynnal cystadleuaeth i greu pot i ddal blodau/planhigion allan o ddefnyddiau a ail gylochwyd. Gallwch eu gweld o amgylch yr ysgol
- Bu disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gweithio'n galed i greu ardaoledd i dasgiau a phlannu blodau
- Bu'r cyngor ysgol yn gweithio'n ddiwyd i gwrdd a statws Ysgolion Eco
- Bu'r cyngor Eco yn llwyddiannus i ennill y faner werdd Eco ysgolion
- Cafodd ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gyfarfod rhithiol gan Bethan Evans cydgysylltydd Eco Sir Gar i gynllunio ar gyfer tymor nesaf

## Cyngor Ysgol Iach / Lles

- Cafwyd ymweliad gan PC Ali a bu'n cynnal gweithdai ar gadw'n ddiogel, bwlio, cyffuriau, diogelwch ayb
- Dathlwyd Wythnos Masnach Deg drwy roi gweithgareddau i ddisgyblion
- Dathlwyd Diwrnod E Ddiogelwch drwy roi gweithgareddau i ddisgyblion gwblhau ar lein
- Cynhaliwyd weithdai i bob dosbarth gan SBECTRWM ar gadw'n ddiogel, cam drin domestig ayb
- Bu disgyblion yn dathlu Wythnos Iechyd Meddwl Plant drwy gwblhau gweithgareddau gwahanol ar y thema Mynegwch eich Hun e.e. llanw jar a rhestr o bethau sy'n gwneud fi'n hapus, dwl i gynrychiolu sut i fi'n teimlo ayb
- Bu disgyblion yn cwblhau gweithgareddau ar Diwrnod Empathi.
- Rhannwyd gweithgareddau ar Empath ar Twitter i ddisgyblion eu cwblhau
- Mynychodd y staff hyfforddiant ar "Creu Perthnasoedd Positif" ar Ionawr 4ydd
- Rhannwyd strategaethau unigol a dosbarth cyfan i wella ymddygiad
- Bu disgyblion yn cymryd rhan yn Sialens Llusern Sir Gar i ledaenu'r neges o olau, gobaith a chariad yn ein cymdeithas

- Bu disgyblion yn cymryd rhan ym un miliwn o funudau o ymarfer gan Actif Sir Gar
- Cafodd y staff hyfforddiant ar Garddio yn y cwricwlwm
- Defnyddiwyd yr ardal allanol i gyflwyno a chwblhau tasgiau
- Mae disgyblion yn bwyta ffrwyth ar y cyd ac mewn modd meddwlgarwch
- Mae'r cyfnod Sylfaen yn mwynhau stori ar y cyd ar ddiwedd y dydd
- Pwysleisiwyd themau fel bod yn ffrind da, dangos parch, cyd weithio a chyd chwarae

### Cwricwlwm Cymreig

- Gwisgodd ddisgyblion y cyfnod sylfaen mewn gwisg traddodiadol ar Ddydd Gwyl Dewi
- Cafwyd cwis a gweithgareddau Cymreig ar Ddydd Gwyl Dewi.
  - Mwynhaodd ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gyngerdd gan Symffoni Cymru
- Bu disgyblion cyfnod allweddol 2 blwyddyn 5 a 6 -yn cymryd rhan yn Cwis dim Clem a drefnwyd gan Menter Cwm Gwendaraeth Elli.
- Bu disgyblion yn rhan o weithdy Cefnforedd y Byd. Cafodd y gerdd a grewyd ganddynt ar y cyd fel dosbarth ei rannu fel enghraifft o arfer dda.
- Bu disgyblion y cyfnod Sylfaen ar raglen rhithiol Cyw

### Profiad Gwaith

Ni fu neb ar brofiad gwaith yn yr ysgol.

### Dyddiadau y Tymor

<b>SCHOOL TERMS AND HOLIDAYS - ACADEMIC YEAR 2021/2022</b>					
Term	Term Begins	Half Term Holiday		Term Ends	Days
		Begins	Ends		
<b>Autumn 2021</b>	Thursday 2nd September	Monday 25th October	Friday 29th October	Tuesday 21st December	74
<b>Spring 2022</b>	Tuesday 4th January	Monday 21st February	Friday 25th February	Friday 8th April	64
<b>Summer 2022</b>	Monday 25th April	Monday 30th May	Friday 3rd June	Tuesday 19th July	56
Designated INSET Day - Wednesday, 1st September 2021					1
<b>Total</b>					<b>195</b>

N.B. Good Friday - 15th April 2022  
May Day - 2nd May 2022

*Nodwch y gallai manylion y calendr hwn newid o ganlyniad i benderfyniadau polisi'r llywodraeth. Nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn derbyn cyfrifoldeb dros unrhyw golledion yn sgîl gorfod newid trefniadau gwyliau oherwydd newidiadau o'r fath.*

*Please note that this calendar is subject to any changes that may arise as a result of government policy decisions. Carmarthenshire County Council does not accept liability for any losses incurred in respect of altered holiday arrangements following such changes.*

Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth a chyd weithrediad i sicrhau fod disgyblion Ysgol Bancffosfelen yn dal i ddysgu dros y cyfnodau clo.

Diolch hefyd am eich cefnogaeth barhaus wrth i ni ddychwelyd i'r ysgol i gadw disgyblion a staff Ysgol Bancffosfelen yn ddiogel.